## Grŵp Trawsbleidiol ar Hil a Chydraddoldeb – Cofnodion

## Dydd Mawrth 28 Medi, 09:00 – 10:00, drwy gyfrwng Zoom

## Yn bresennol yr oedd John Griffiths AS; Christina Tanti, Cydlynydd Ymchwil a Gwerthuso, Race Equality First; a Jane Hutt AS

Cyfanswm y cyfranogwyr a oedd yn bresennol: 84; roedd 100 o bobl wedi'u cofrestru. Cafodd y cofnodion eu cymryd gan Judy Li o Dîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru (EYST Cymru)

| **Unigolion wedi'u cofrestru** | **Cyfeiriad e-bost** |
|---|---|
| Sujatha Thaladi | Sujatha.thaladi@MentorRing.org.uk |
| Sunil Patel | sunil@theredcardwales.org |
| Usha Ladwa-Thomas | Usha.ladwa-Thomas@gov.wales |
| Ken Barker | Ken.Barker2@btinternet.com |
| Eileen Wong | eileen.wong@hmrc.gov.uk |
| jeni williams | jeninswan@hotmail.com |
| Joyce Nangwa | joycenangwa26@hotmail.co.uk |
| Selina Moyo | Selinamoyo@hotmail.co.uk |
| Catrin Edwards | catrin_wyn@yahoo.co.uk |
| Moawia Bin-Sufyan | Moawia.binsufyan@gmail.com |
| paida maziwisa | 203305@swansea.ac.uk |
| Elaine Griffiths | ecgriffiths@yahoo.co.uk |
| Kay DENYER | kay@racecouncilcymru.org.uk |
| Rebecca Merry | rebecca@racecouncilcymru.org.uk |
| Martyn Jones | martyn.jones3@south-wales.pnn.police.uk |
| robert muza | robert.muza@newport.gov.uk |

| | |
|---|---|
| Cerys Furlong | cerysfurlong@gmail.com |
| Bablin Molik | Bablin.molik@sightcymru.org.uk |
| Abi Lasebikan | abi.lasebikan@senedd.wales |
| Sophie Demarco | Sophie@eyst.org.uk |
| Dalia Alhusseini | Dalia@eyst.org.uk |
| Ingram Beti-jane | bets.ingram@powys.gov.uk |
| Himalee Rupesinghe | himalee@raceequalityfirst.org.uk |
| Lee Tiratira | lee@eyst.org.uk |
| shaheen s | shaheen.sutton@tnlcommunityfund.org.uk |
| Robert Moore | rsmoore@liv.ac.uk |
| Zuzka Hilton | zuzka.hilton@gmail.com |
| Carol Evans | carol.a.evans@denbighshire.gov.uk |
| Daniel Hall | dan@oasiscardiff.org |
| Eleri Cruchley-Jones | e.cjones@svcymru.org |
| Roiyah Saltus | roiyah.saltus@southwales.ac.uk |
| Alison Burrowes | alisonb@pcs.org.uk |
| Fateha Ahmed | fateha@eyst.org.uk |
| Yr Athro Uzo Iwobi OBE | uzo@racecouncilcymru.org.uk |
| meena upadhyaya | upadhyaya@cardiff.ac.uk |
| Billy Mazoya | bmazoya@tuc.org.uk |
| Robiu Salisu | robiu_salisu@hotmail.co.uk |
| Jenny Rathbone | jenny.rathbone@senedd.cymru |
| Eleri Cubbage | eleri.cubbage2@senedd.wales |
| Jackie Jones | Jmjfourjones@gmail.com |
| Jessica Laimann | jessica@wenwales.org.uk |
| gary lewis | redgaz17@hotmail.co.uk |
| Khadra Hersi | khersi@southwalestrainingeducationprogramme.com |
| Arola Ajeigbe | 851198@swansea.ac.uk |
| NS Baicher | neetabaicher@outlook.com |
| Sophie Delamothe | sophie@generationrent.org |
| Asmut Price | Asmprice@cardiff.gov.uk |
| Tripti Megeri | triptimegeri@gmail.com |

| | |
|---|---|
| Marco Gil-Cervantes | marco@promo.cymru |
| Denise Kingsley-Jones | deniseolivetraining180@aol.com |
| Patricia Emma JONES | jonespatriciaemmahelena@gmail.com |
| Kafiluddin Chowdhury | Kuachowdhury@icloud.com |
| Ailish Carroll-Brentnall | ailish.carroll@safelives.org.uk |
| Christina Tanti | christina.t@raceequalityfirst.org.uk |
| Wiard Sterk | Wiard.sterk@the3million.org.uk |
| Amanda Carr | Amanda_Carr@scvs.org.uk |
| Shahinoor Alom | shahinoor@eyst.org.uk |
| Martin Gallagher | gallagher_martin@hotmail.com |
| Gaynor Legall | chair@tigerbay.org.uk |
| Rachelle Bright | r.bright@timetochangewales.org.uk |
| Rachel Pedley | helo@avant.cymru |
| Sam Worrall | sam.worrall@gtwales.org.uk |
| Sivagnanam Sivapalan | siva.sivapalan@btinternet.com |
| Dr. Shadan Roghani | shadanr@nptcvs.org.uk |
| Dave Goodger | Davidg@earlyyears.wales |
| Jennifer Halbert | jennifer.halbert@tgpcymru.org.uk |
| Belinda Chideme | Belindachideme@icloud.com |
| Charlotte Davies | charlotte@madswansea.com |
| andrew lucas | alucas@cardiff.gov.uk |
| Arhlynn Dimas | dayapan0810@gmail.com |
| Ken Woods | kwoods40@mac.com |
| Pete Rogers | pete@thetownsquare.co.uk |
| Sioned Williams | Sioned.a.williams@senedd.cymru |
| Laura Shobiye | shobiyelo@cardiff.ac.uk |
| Kalpana Natarajan | kalnat.28@gmail.com |
| Liz Millman | lizmillman@yahoo.co.uk |
| helal uddin | helal@eyst.org.uk |
| Alison May | alisonmay2015@gmail.com |
| Peter Wong | peter.wong@cardiff.gov.uk |
| warburton melanie | melanie.s.warburton@rctcbc.gov.uk |
| Frances Beecher | francesbeecher@icloud.com |

| | |
|---|---|
| Abyd Quinn Aziz | quinnaziza@cardiff.ac.uk |
| Lewis Owen | lewis.owen@senedd.cymru |
| Colin Heyman | colinheyman3560@gmail.com |
| Maria Mesa | maria@womenconnectfirst.org.uk |
| akbar twahida | twahidaakbar@bavo.org.uk |
| Jo Harry | jo.harry@careandrepair.org.uk |
| Rocio Cifuentes | rocio@eyst.org.uk |
| Humie Webbe | humie.webbe@ntfw.org |
| Eleri Williams | eleri.williams@futuregenerations.wales |
| Aleksandra Kaczmarek-Day | aleksandra.kaczmarek@tgpcymru.org.uk |
| Ingrid Wilson | ingrid@ideasuk.co.uk |
| Emily Robertson | Emily@birthpartnerproject.org |
| Sibani Roy | doctorroy@btinternet.com |
| Ross Thomas | ross@taipawb.org |
| Allison Hulmes | allison.hulmes@basw.co.uk |
| Rhys Taylor | rhys.taylor@senedd.cymru |
| Mabon ap Gwynfor | mabon.ap.gwynfor@senedd.cymru |
| Pat Dunmore | pat.dunmore@citizensadvicesnpt.org.uk |
| Andrew Bettridge | andrew.bettridge@senedd.cymru |

**Adnoddau defnyddiol:** Adroddiad Cysgodol NGO ar y Cyd ar Anghydraddoldeb Hiliol yng Nghymru https://raceequalityfirst.org/the-un-press-release/

Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Gydraddoldeb Hiliol – https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cydraddoldeb-hiliol-cymru-wrth-hiliol----

Gwybodaeth am y Confensiwn Rhyngwladol ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu Hiliol (ICERD) a'r Pwyllgor ar Ddiddymu Gwahaniaethu ar Sail Hil (CERD): https://www.ohchr.org/Documents/ProfessionalInterest/cerd.pdf

**Gallwch hefyd wylio recordiad o'r cyflwyniad yma –** https://youtu.be/N_YzwjuUdhs

## Enwebu'r Cadeirydd a Chyflwyniadau

- Rhaid i'r sawl sy'n enwebu'r Cadeirydd a'r sawl sy'n eilio'r enwebiad hwnnw fod yn Aelodau o'r Senedd.
- Enwebwyd John Griffiths AS fel Cadeirydd y grŵp gan Sioned Williams.

- Yn sgil cyfyngiadau amser, bydd y grŵp yn dychwelyd at y mater o Is-gadeirydd yn y cyfarfod nesaf.
- Diolchodd John Griffith AS i bawb am fod yn bresennol. Cyflwynwyd yr eitem gyntaf ar yr agenda.

## Cyflwyniad gan Christina Tanti ar Adroddiad Cysgodol NGO ar y Cyd ar Anghydraddoldeb Hiliol yng Nghymru –Sylwadau cyffredinol:

- Nid yw archwiliad y Cenhedloedd Unedig o'r DU wedi'i drefnu eto yn sgil y pandemig – mae cyfle i ddiwygio'r adroddiad cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cenhedloedd Unedig. Byddai unrhyw awgrymiadau yn cael eu croesawu. *(E-bost: Christina.t@raceequalityfirst.org.uk)*
- Eleni, mae'r cenhedloedd datganoledig wedi cael eu hariannu i ysgrifennu eu hadroddiadau eu hunain, a hynny ar wahân. Mae hyn yn golygu y bydd materion sy'n ymwneud yn benodol â hiliaeth yng Nghymru yn cael eu tynnu at sylw'r Cenhedloedd Unedig am y tro cyntaf.
- Un sylw a ddaeth i'r amlwg dro ar ôl tro oedd bod yr adroddiad yn canolbwyntio gormod ar ddata a rhifau, pan fo profiadau byw pobl yn bwysig iawn. Mae'r Adroddiad Cysgodol yn tynnu sylw at y profiadau hyn – roedd nifer o ymgyngoreion yn hapus ac yn barod i rannu'r profiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Diben yr Adroddiad Cysgodol yw dangos i'r Cenhedloedd Unedig i ba raddau y mae anghydraddoldeb hiliol yn bodoli yng Nghymru, ond nid yw hynny'n golygu nad oes modd defnyddio'r adroddiad ar lefel fwy lleol.
- Lluniwyd yr adroddiad mewn cyfnod byr iawn o amser (chwe mis). Cafwyd cyfnod o bum wythnos yn unig i gael cyfraniadau gan gymdeithasau sifil ar faterion yn ymwneud â hiliaeth yng Nghymru. (Yn dilyn hynny, rhoddwyd adborth i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynghylch y ffaith bod yr amserlen yn rhy fyr).
- Rhannwyd y drafft cyntaf â'r rhai a gyfrannodd er mwyn iddynt gael cyfle i wneud sylwadau yn ei gylch. Yna, cafwyd yr adroddiad terfynol ym mis Gorffennaf (17,000 o eiriau a 63 o lofnodwyr).

## *Materion a godwyd yn ystod y broses ymgynghori*

## Prif Ganfyddiadau – Addysg

- Dywedodd 85% o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig a oedd yn destun arolwg gan Show Racism the Red Card (SRtRC) eu bod wedi profi hiliaeth yn yr ysgol neu yn y gymuned.
- Cododd ymgyngoreion bryderon ynghylch y ffaith nad oedd gan athrawon yr adnoddau i fynd i'r afael â hiliaeth mewn modd cadarn. Mae'r honiad hwn yn cael ei gefnogi gan arolwg SRtRC.

- Canfu ESTYN mai lleiafrif o ysgolion yn unig sydd wedi bod yn cadw cofnodion defnyddiol ynglŷn â bwlio.
- Plant Sipsiwn a Roma sydd â'r cyrhaeddiad addysgol isaf o unrhyw grŵp ethnig (mae 11.1% o blant yn y grŵp hwn yn ennill 5 cymhwyster TGAU neu fwy gyda graddau A* i C).

- Nid yw Teuluoedd Sipsiwn a Roma yn ymddiried mewn ysgolion i gadw eu plant yn ddiogel ac i'w diogelu rhag bwlio. Felly, maent yn dewis eu haddysgu gartref.
- Allgáu digidol (sefyllfa sydd wedi gwaethygu yn sgil y pandemig).

## Prif Ganfyddiadau – Cyflogaeth

- Mae pobl o leiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fod mewn swyddi mwy ansicr sydd â chyflogau isel.
- Mae'r gyfradd gyflogaeth ymhlith pobl o leiafrifoedd ethnig yn is na'r gyfradd ymhlith pobl wyn. Ochr yn ochr â hyn, mae pobl o leiafrifoedd ethnig wedi bod yn fwy tebygol o golli incwm neu ddod yn ddi-waith yn ystod y pandemig, gan eu bod yn fwy tebygol o weithio mewn sectorau y mae'r cyfnodau clo wedi effeithio arnynt.
- Canfu prawf gan y BBC fod unrhyw CV a gyflwynir o dan enw nad yw'n enw Mwslimaidd dair gwaith yn fwy tebygol o ennyn gwahoddiad i gyfweliad nag unrhyw CV a gyflwynir o dan enw Mwslimaidd.
- Canfu arolwg diweddar gan ITV Cymru ac UNSAIN fod dwy ran o dair o staff lleiafrifoedd ethnig y GIG yng Nghymru wedi profi hiliaeth yn y gwaith.
- Mae lleiafrifoedd ethnig yn cael eu tangynrychioli i raddau helaeth mewn rolau uwch yng Nghymru (ond yn cael eu gorgynrychioli mewn swyddi sydd â chyflogau is).

## Prif Ganfyddiadau – Iechyd

- Mae lleiafrifoedd ethnig yn wynebu gwahaniaethau amlwg o ran eu canlyniadau iechyd – mae diffyg data wedi'u dadgyfuno yn parhau i fod yn broblem.
- Nid oes gan leiafrifoedd ethnig fynediad cyfartal at ofal iechyd yn y DU. Mae sicrhau cyfieithydd ar gyfer apwyntiadau meddygol yn parhau i fod yn rhwystr.
- Mae gan bobl o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr y canlyniadau iechyd gwaethaf o'u cymharu ag unrhyw grwpiau ethnig eraill, gan gynnwys disgwyliad oes is, cyfradd hunanladdiad uwch ac, o bosibl, y cyfraddau uchaf o ran marwolaethau babanod a marwolaeth mamau.
- Mae cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn dioddef lefel anghymesur o farwolaethau o ganlyniad i COVID-19. Roedd pobl dduon yng Nghymru bron dair gwaith yn fwy tebygol o farw o ganlyniad i'r feirws na'r boblogaeth wyn yn 2020.

## Prif Ganfyddiadau – Tai

- Roedd bron ddwywaith cymaint o unigolion o leiafrifoedd ethnig yn byw mewn llety yn y sector rhentu preifat yng Nghymru yn 2019 o'i gymharu â'r boblogaeth wyn (28 y cant o'i gymharu â 15 y cant).

- 
- Mae lleiafrifoedd ethnig yn wynebu lefel anghymesur o ddigartrefedd yng Nghymru ac yn fwy tebygol o fyw mewn tai gorlawn na'r boblogaeth wyn yng Nghymru.
- Y sefyllfa dai o ran Sipsiwn, Roma a Theithwyr – Mae canran fach (11 y cant) o garafanau yn parhau i sefyll ar safleoedd awdurdodedig, er bod gan awdurdodau lleol yng Nghymru ddyletswydd gofal i ddarparu llety ar safleoedd o dan y Ddeddf Tai.
- Mae pryderon ynghylch Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, sy'n gwneud tresmasu yn drosedd.

  Mae risg gynyddol y bydd ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn dod yn ddigartref, gan nad yw'r cyfnod symud o 28 diwrnod yn rhoi digon o amser iddynt symud i lety arall. Yn ogystal, bydd rhwystrau o ran sicrhau llety yn y sector rhentu preifat yn sgil y gofynion o ran talu blaendal.

## *Prif Argymhellion*

- [Addysg] Sicrhau bod hyfforddiant gorfodol ar waith ar gyfer pob athro o ran sut i adnabod ac ymateb i hiliaeth. Hefyd, sicrhau y gellir cefnogi plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'u teuluoedd.
- [Addysg] Sicrhau bod gan bob ysgol (ac athro) adnoddau digonol i ddysgu hanes lleiafrifoedd ethnig.
- [Cyflogaeth] Sicrhau gweithdrefnau diogelu pellach fel bod unigolion yn teimlo ei bod hi'n ddiogel iddynt wneud cwyn, a hynny heb y perygl o gael eu bygwth.
- [Cyflogaeth] Sefydlu Cynllun Gweithredu i recriwtio mwy o athrawon o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru, gan gynnwys cadw'r athrawon hynny a datblygu eu gyrfaoedd.
- [Iechyd] Sicrhau bod data wedi'u dadgyfuno ar ganlyniadau iechyd yn ôl ethnigrwydd yng Nghymru yn cael eu casglu a'u cyhoeddi er mwyn darparu gwell dealltwriaeth o anghydraddoldebau ac er mwyn gwella canlyniadau iechyd ar gyfer pobl o leiafrifoedd ethnig.
- [Iechyd] Gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl ymhlith pobl o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru.
- [Tai] Sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar safleoedd yn cael ei darparu ar gyfer pobl Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru, a gweithio i ddatgymhwyso Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd yng Nghymru.
- [Tai] Cynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol a thai fforddiadwy yng Nghymru, a rhoi blaenoriaeth ar restrau aros am dai cymdeithasol i gartrefi sydd eisoes yn orlawn.

*Mwy o argymhellion yn yr Adroddiad Cysgodol.*

## *Beth nesaf?*

- Aros am yr Adroddiad Gwladol.

- 
- Aros i’r Cenhedloedd Unedig bennu amserlen ar gyfer y broses o archwilio’r DU.
- Cymryd rhan yn y broses o archwilio’r DU er mwyn cyflwyno tystiolaeth.

## *Sesiwn holi ac ateb ynghylch y cyflwyniad a wnaed (Rocio Cifuentes yn cadeirio)*

**Gofynnodd Jackie Jones a fyddai’r meysydd lle canfu eisoes fod y DU yn ddiffygiol (a meysydd lle nad oes gweithredu eto wedi digwydd) yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad ar Gymru. Gofynnwyd ail gwestiwn ynghylch yr elfen ddomestig mewn perthynas â’r Cenhedloedd Unedig ei hun.**

**Ymateb:**

- Mae adroddiadau ar wahân y tro hwn, ac mae adroddiad Lloegr yn cynnwys llawer mwy o fanylion ynghylch methiant Llywodraeth y DU i gynnal yr argymhellion a wnaed yn flaenorol, tra bod materion eraill wedi datblygu yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.
- Mae’r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y meysydd lle mae Llywodraeth y DU yn cael effaith ar Gymru – mae cyfyngiadau, fodd bynnag, ar yr hyn y gallwn ei wneud.

  Mae pobl yn pwyso am roi y Cytuniad ar waith yn ddomestig yn y DU – cam sydd wedi’i argymell yn adroddiad y DU.

-

**Gofynnodd Bablin Molik a oedd unrhyw wahaniaethau wedi’u canfod o fewn gwahanol grwpiau lleiafrifoedd ethnig – a wnaed unrhyw waith ymchwil ar y lefel hon.**

**Ymateb:**

- Cydnabu’r ffaith bod dadl barhaus ynghylch peidio â categoreiddio lleiafrifoedd ethnig fel un grŵp mawr o dan un term – fodd bynnag, mae angen gwneud hyn o bryd i’w gilydd.
- Mae rhannau o'r adroddiad yn trafod grwpiau ethnig gwahanol lle bo hynny'n bosibl. Tynnir sylw at wahanol faterion sy'n effeithio ar rai cymunedau, ac mae argymhellion wedi’u hatodi.

-

**Gofynnodd Robu a yw’r adroddiad yn ymdrin â chynrychiolaeth gyhoeddus, gan fod angen arweinyddiaeth yn y maes hwn.**

**Ymateb:**

- 
- Ydy, mae'r adroddiad yn cyfeirio at brinder y bobl o leiafrifoedd ethnig sy’n cael eu penodi i rolau cyhoeddus a gwleidyddol yng Nghymru – ar lefel genedlaethol ac yn y Senedd.
- Mae cyfeiriadau pellach hefyd yn yr adroddiad, sy’n sôn am bwysigrwydd modelau rôl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru.

-

**Gofynnodd Sivagnanam Sivapalan a ydym yn gwneud unrhyw gynnydd, a sut yr ydym yn gwerthuso hyn. Bydd y mater o atebolrwydd yn destun pryder os nad oes cynnydd yn cael ei wneud, gan ein bod yn ymwybodol bod hiliaeth yn bodoli.**

**Ymateb:**

- Roedd dealltwriaeth o’r rhwystredigaeth sy’n cael ei theimlo ynghylch y ffaith bod yr un sgyrsiau yn cael eu cynnal yn barhaus.
- Mae'r adroddiad yn cymharu Cymru heddiw â Chymru 5 mlynedd yn ôl.
- Gan fod Cymru yn cymryd rhan mewn fforwm rhyngwladol yn ei rhinwedd ei hun, mae gobaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gwrando ac yn gweithredu’r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol – felly, mae gobaith y bydd newid yn deillio o hynny.

## *Y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol – Jane Hutt AS:*

- Rydym am i bobl ddweud y teitl llawn ar bob achlysur – *Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Wrth-hiliol.* Mae’r cynllun yn wirioneddol hanfodol o ran gwneud y gwahaniaeth yr ydym wedi bod yn siarad amdani ers blynyddoedd maith.
- Cafwyd lefel uchel o ymgysylltu yn sgil yr ymgynghoriad – 330 o ymatebion. Defnyddiwyd ystod eang o ddulliau gweithredu, gan gynnwys fideos, cyfweliadau wedi'u recordio a chofnodion. Roedd rhai rhanddeiliaid am fynegi barn ar bopeth, tra bod eraill yn hapus i ganolbwyntio ar feysydd penodol.
- Penodwyd darparwr annibynnol (Race Equality First) i ddadansoddi'r holl ymatebion. Rydym yn gobeithio y bydd yr annibyniaeth hon yn rhoi rhywfaint o hyder i bobl. Yn gadarnhaol,

mae gan bobl ymdeimlad o berchnogaeth eisoes mewn perthynas â’r cynllun, yn sgil yr ymgysylltu a gafwyd cyn llunio’r cynllun.

- Bydd dogfen ymarferol yn dilyn – y diben yw rhoi eglurder ynghylch y newidiadau a fydd yn digwydd a syniad o’r canlyniadau cyraeddadwy. Ni fydd y term BAME yn cael ei ddefnyddio mwyach – mae’r drafodaeth barhaus hon yn parhau i fynd rhagddi.
- Mae’n rhaid dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif – ond felly hefyd pob corff arall sydd â phŵer yng Nghymru. Mae'n rhaid iddynt ddangos perchnogaeth o’r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar gyfer Cymru gwrth-hiliol ac mae’n rhaid iddynt roi’r cynllun ar waith.

## *Sesiwn holi ac ateb gyda Jane Hutt AS (John Griffith AS yn cadeirio):*

**Roedd Trudy Aspinwall am gael diweddariad ynghylch y cynnydd y gellir ei wneud, a’r camau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i ddatgymhwyso Bil yr heddlu yng Nghymru, fel nad yw teuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael eu gadael mewn sefyllfaoedd ofnadwy o ran tai a allai arwain at erlyniadau.**

**Ymateb:**

- Yn amlwg, mae gwrthwynebiad i’r adrannau yn y Bil sy'n creu troseddau. Rydym yn ymwybodol y bydd y Bil yn gwneud ffordd grwydrol o fyw yn drosedd, gan achosi pobl i golli eu cartrefi.
- Mae rhai awdurdodau yn cynnig cyllid i ailbennu safleoedd cyfredol – sy’n dda – ond nid yw hyn yn digwydd ym mhob rhan o Gymru ar hyn o bryd. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y mater hwn.
- Codwyd y pwnc hwn yn y Siambr yn ddiweddar. Mae angen inni gyd-dynnu ar y mater hwn gan ei bod yn bwysig bod pob awdurdod yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan Ddeddf Tai 2014.
- Bydd datganiad ysgrifenedig yn cael ei lunio, gan y bydd hyn yn ddefnyddiol i'r cyhoedd.

-

**Gwnaeth Bablin Molik a Dalia Alhusseini sylwadau ar derminoleg sydd ond yn achosi mwy o ddryswch, gan arwain at sefyllfaoedd lle mae pobl yn camddefnyddio termau neu’n rhoi’r gorau i’w defnyddio. Mae Dalia yn pryderu y byddwn yn treulio mwy o amser yn pennu’r derminoleg gywir – sy'n eithrio pobl beth bynnag. Ymateb:**

- Bydd y mater hwn yn cael ei godi gyda’r Gweinidog Iechyd a bydd camau dilynol yn cael eu cymryd. Rydym yn cytuno y gall terminoleg arwain at eithrio pobl.
- Rhaid bod yn gynhwysol ynghylch yr holl anghenion – mae nodweddion gwarchodedig yn hanfodol.

-

**Roedd Robert Moore o'r farn bod y ddogfen bolisi derfynol a gyhoeddwyd yn undonog ac yn ddifflach, a hynny'n groes i ysbryd y camau cychwynnol, lle'r oedd yn teimlo fel bod cynnydd gwirioneddol ar fin digwydd. Gofynnodd beth oedd wedi digwydd.**

**Ymateb:**

- Mynegwyd siom wrth glywed yr adborth hwn. Roedd hon yn ddogfen enfawr, ac roedd y dasg o fyfyrio ar yr holl ymgynghoriadau yn arbennig o anodd. Roedd pwysau hefyd o ran cyfyngiadau amser.
- Roedd teimlad bod profiadau byw a safbwyntiau wedi cael eu cynnwys drwy'r ddogfen gyfan, a bod y fideos a'r ymatebion a gafwyd yn gadarnhaol ac yn adeiladol iawn.
- Y gobaith yw y bydd yr hyn sy'n deillio o'r gwaith hwn yn ymarferol. Ni allwch ddiystyru effaith y pennawd: Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Wrth-hiliol

**-**

**Cododd Dalia Alhusseini bwynt ar wahân am dlodi bwyd a'r ffaith bod gwastraff bwyd yn broblem gynyddol. Mae Dalia yn awgrymu y dylai archfarchnadoedd gymryd camau gweithredol yn y maes hwn.**

**Ymateb:**

- Hapus i gael cyfarfod ar wahân i drafod y mater ymhellach.

-

[DIWEDD Y CYFARFOD – Diolch yn fawr]